Canolfan Bywyd y Myfyrwyr,
Plas y Parc,
Cathays, Caerdydd
CF10 3BB

Stable Studios
1 Stryd Talbot
Pontcanna, Caerdydd
CF11 9BW

17/11/2024

Annwyl Reolwr Recriwtio,

Rwy'n Fyfyriwr Cyfrifiadureg yn fy ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rwy'n ysgrifennu atoch i wneud cais am y rôl Intern TG yn Stable, sydd wedi'i hysbysebu ar eich gwefan. A minnau'n fyfyriwr Cyfrifiadureg sy'n angerddol dros foddhad cleientiaid a chydweithio'n rhan o dîm, rwy'n llawn cyffro i gael y cyfle i weithio gyda Stable, a chyfrannu at dîm ymroddedig.

Yn sgîl ymchwilio i Stable, rwy'n credu bod y rôl Intern TG yn cyd-fynd yn berffaith â fy nghefndir a'm dyheadau, gan gynnig cyfle gwych imi ddatblygu amrediad eang o sgiliau. Yn ôl eich gwefan, mae gan Stable bwyslais ar dechnolegau diweddaraf, datrysiadau arloesol a datblygu côd isel, gan ddefnyddio Microsoft Power Platform a Dynamics 365, sydd oll yn cynnig cyfle unigryw i weithio ar brosiectau uwch. Un agwedd sy'n apelio'n arbennig ataf yw'r cyfle i ryngweithio'n uniongyrchol â chleientiaid ar draws amryw blatfformau. Rwy'n ymfalchïo yn fy ngallu i gyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn glir ac yn gryno. Ar sawl achlysur, roedd gofyn imi helpu aelodau teulu a chyfoedion gyda phroblemau technegol neu broblemau codio. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n dwlu gwneud, ac yn ddawn y gallaf ei defnyddio mewn rôl yn Stable. Bydd fy sgiliau datrys problemau'n cael eu datblygu ymhellach drwy gynnig cefnogaeth uwch i ddefnyddwyr a nodi a datrys problemau. Byddwn yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddefnyddio fy sgiliau cyfathrebu a'm gwybodaeth ymarferol rhagorol drwy ddefnyddio platfformau datrys problemau megis Azure a Microsoft.

Mae gen i set o sgiliau amryddawn y gallaf ei chynnig i Stable. Mae gen i sylfaen gadarn o ddefnyddio a chefnogi offer Microsoft, wedi'i ategu gan brofiad ymarferol o ddefnyddio platfformau iOS ac Android. Mae fy sgiliau wedi gwella drwy fy mhrofiad gwaith blaenorol, lle roeddwn i wedi cefnogi Tîm TG. Drwy hyn, roeddwn i wedi ennill ddealltwriaeth bwysig o ddatrys problemau technegol, lle gwnes i nodi problemau technegol a'u datrys yn weithredol, gan sicrhau nad oedd cleientiaid wedi'u heffeithio'n rhy hir. Yn ystod y profiad gwaith hwn, dysgais werth cyfathrebu'n rhagweithiol, gwaith tîm, a phwysigrwydd datrys problemau'n effeithlon, ac rwy'n gobeithio datblygu'r sgiliau hyn ymhellach gyda Stable. Fel y gallwch chi ei weld ar fy CV, mae fy rôl yn Weinydd Bar wedi datblygu fy ngallu i gyfathrebu'n effeithiol a chynnal proffesiynoldeb, gan roi min ar fy ngallu i aml-dasgio, drwy wneud sawl tasg ar yr un pryd. Roedd natur brysur y swydd wedi fy nysgu i fod yn hyblyg, addasu'n gyflym i newidiadau, a meddwl am atebion creadigol i broblemau. Rwy'n llawn cyffro ynghylch y posibilrwydd o gael defnyddio'r sgiliau hyn yn Stable, a pharhau i ffynnu gyda'r tîm.

Mae'r lleoliad hwn yn cynnig cyfle unigryw i gymhwyso fy ngwybodaeth academaidd, ac i ennill profiad ymarferol. A minnau ag angerdd am ddysgu, ac yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol cryf, hyderaf y gallaf ffynnu yn yr interniaeth TG hon, a chyfrannu at Stable Resources Ltd. Diolch yn fawr ichi am roi o'ch amser i ystyried fy nghais. Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych chi.

Yn gywir,

Eich enw